Blaenau Gwent

Cynulliad Hinsawdd
Climate Assembly

# Cynulliad Hinsawdd Blaenau Gwent



# Cynulliad Hinsawdd Blaenau Gwent
# Adroddiad

Drafftiwyd yr adroddiad hwn gan Cynnal Cymru a'r Electoral Reform Society Cymru, dau o bartneriaid trefnu Cynulliad Hinsawdd Blaenau Gwent


Glyn Ebwy


Abertyleri


Tredegar


Brynmawr

Hawlfraint © Cynnal Cymru – Sustain Wales, 2021
Cedwir pob hawl

Dyluniwyd gan Roseblade Media Ltd., Glyn Ebwy
Ffôn.: 01495 524 312

# 1. Cyflwyniad

Cynhaliwyd Cynulliad Hinsawdd Blaenau Gwent o'r 6 hyd at yr 28 o Fawrth 2021.

Cynhaliwyd y Cynulliad arlein trwy gyfrwng Zoom. Dewiswyd hanner cant o breswylwyr Blaenau Gwent ar hap i fynd i'r afael â'r cwestiwn:

**"Beth y dylid ei wneud ym Mlaenau Gwent i daclo'r argyfwng hinsawdd mewn ffordd sy'n deg, ac yn gwella safonau byw i bawb?"**

Roedd 44 cyfranogwr wedi mynychu sesiwn gyntaf y Cynulliad, ac roedd 43 o gyfranogwyr yn bresennol yn y sesiwn olaf i bleidleisio ar yr argymhellion. Roedd presenoldeb y mynychwyr yn sefydlog trwy gydol y sesiynau, a 43 oedd isafswm y mynychwyr.

Roedd yr aelodau wedi cyfarfod am gyfanswm o 23 awr i glywed tystiolaeth oddiwrth dros 20 arbenigwr gwahanol, i drafod y posibiliadau a chynhyrchu argymhellion ynghylch yr hyn y gallai sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus lleol, cymunedau ac unigolion wneud i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, a gwella bywydau pobl Blaenau Gwent.

Yn ystod y cyfnod dysgu, roedd aelodau'r Cynulliad wedi archwilio'r themáu canlynol:

- Cyflwyniad i newid hinsawdd
- Trafod tegwch a phontio teg
- Sut y mae newid yn digwydd
- Tai – ôl-osod, adeiladu o'r newydd, tlodi tanwydd, swyddi a sgiliau
- Natur a mannau gwyrdd
- Trafnidiaeth

Gallech chi ddod o hyd i'r agenda, fideos o'r sesiwn a chwestiynau eraill i'r siaradwyr ar y wefan.

Yn ystod y cyfnod trafod, roedd aelodau'r cynulliad wedi cynnig argymhellion ynghylch y themáu canlynol:

- Ôl-osod tai
- Adeiladu tai newydd
- Natur a mannau gwyrdd
- Trafnidiaeth
- Tlodi*
- Cyfathrebu*
- Addysg*
- Gwastraff ac ailgylchu*

* Themáu a ddewiswyd mewn ffordd ddemocrataidd gan aelodau'r Cynulliad.

# 2. Argymhellion

Derbyniodd pum argymhelliad dros 80% o'r bleidlais, a chafodd rhain eu pasio yn swyddogol gan y Cynulliad. Mae'r tabl isod yn dangos yr argymhellion fel y'u drafftiwyd gan aelodau'r Cynulliad.

| Thema | Argymhelliad | % Cefnogaeth |
|---|---|---|
| Trafnidiaeth | Sefydlu system drafnidiaeth fforddiadwy ac integredig ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd ym Mlaenau Gwent.<br><br>System o docynnau sengl sy'n cysylltu'r cynlluniau bws, rheilffordd a beicio - cynwysoldeb o ran prynu tocynnau (papur neu ddigidol).<br><br>Bod y cyfleusterau yn hygyrch drwy gydol yr amser ac wedi'u goleuo, eu gwarchod gan Deledu Cylch Cyfyng a'u cynnal a chadw mewn cyflwr da. | 91 |
| Trafnidiaeth | Sefydlu a gwella seilwaith diogel ar gyfer cerddwyr a beicwyr, at ddibenion hamdden neu waith, sy'n hawdd ei gynnal a chadw ac yn darparu mynediad at y rhwydwaith drafnidiaeth gyhoeddus. Bydd yn cynnwys goleuo a Theledu Cylch Cyfyng a lle i storio beiciau. | 88 |
| Ôl-osod Tai | Hyfforddi crefftwyr lleol a chreu cymwysterau a gwella sgiliau busnesau lleol, gan gynnwys y colegau addysg bellach a phrifysgolion lleol. Diogelu hyn a chynnig y cyrsiau cywir a fydd yn eu galluogi i wneud yr holl waith ym maes adeiladu gwyrdd. | 86 |
| Mannau gwyrdd a natur | Sefydlu rhaglen cadw coetiroedd a choedwigo Blaenau Gwent, gan ddefnyddio'r goeden iawn yn y lle iawn am y rheswm cywir, cynyddu'r cyfleoedd am swyddi, bioamrywiaeth a chysylltu coetiroedd.<br>Sicrhau bod y sgiliau iawn ar gael fel ein bod yn gallu creu swyddi gwyrdd e.e. melinau llifio a thai ffrâm pren. | 86 |
| Adeiladu tai newydd | Sicrhau bod yr holl dai newydd yn cal eu hadeiladu gan ddefnyddio'r technolegau cynaliadwy diweddaraf (e. e. Glanffrwd development fel templed), cyflogi adeiladwyr lleol a darparu amrywiaeth o fathau o dai sy'n addas ar gyfer pawb, o bobl digartref/ person sengl, hyd at deuluoedd mawr. | 81 |

Mae rhestr lawn o'r argymhellion a bleidleisiwyd arnynt wedi'u rhestru, yn nhrefn y gefnogaeth a dderbyniwyd, ac ar gael yn Atodiad 1.

# 3. Pam cynnal Cynulliad Hinsawdd ym Mlaenau Gwent?

Comisiynwyd Cynulliad Hinsawdd Blaenau Gwent gan gonsortiwm o sefydliadau y gymdeithas sifil a chymdeithasau tai.

Y partneriaid trefnu oedd:

- Cynnal Cymru - Sustain Wales
- Electoral Reform Society Cymru
- Cymdeithas Dai Linc Cymru
- Cartrefi Melin
- Cymdeithas Dai Cymunedol Tai Calon
- Cymdeithas Dai United Welsh

Yn gynnar yn 2020, yng nghyd-destun mentrau datgarboneiddio presennol ac yn y dyfodol yn y sector tai[1], roedd Cynnal Cymru, ERS Cymru a Thai United Welsh wedi cyfarfod i drafod sut y gallai tenantiaid tai a chymunedau ehangach chwarae eu rhan mewn cynlluniau datgarboneiddio cymdeithasau tai, cyrff cyhoeddus a sefydliadau angor eraill.

Cododd y syniad am Gynulliad Hinsawdd Blaenau Gwent o ganlyniad i'r trafodaethau hyn ymysg y partneriaid trefnu. Cafodd ei ariannu gan Raglen Dai Arloesol Llywodraeth Cymru, sef y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio.

Roeddwn hefyd wedi cydweithio'n agos gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (CBSBG) a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent (BGC) o gyfnod cynnar y prosiect.

## Pam Blaenau Gwent?

Mae'r bedair cymdeithas dai a oedd yn comisiyu yn gyfrifol am 24% o'r stoc tai ym Mlaenau Gwent, ac roeddent eisoes yn cydweithio ar fenter i gryfhau a chefnogi cyflenwyr ym Mlaenau Gwent drwy rhaglen Llywodraeth Cymru, sef Cronfa Her yr Economi Sylfaenol 2020.

Yn 2020, roedd CBSBG wedi datgan argyfwng hinsawdd. Roedd y BGC wedi cytuno sefydlu Grŵp Llywio Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd er mwyn datblygu cynllun hirdymor i leihau'r allyriadau carbon ym Mlaenau Gwent.

Felly, ym Mlaenau Gwent roedd y fframwaith i ddatblygu cynllun gweithredu yn ei le, ac roedd rhanddeiliaid allweddol eisoes yn archwilio ffyrdd o gynnwys y gymuned.

[1] Llythrennedd Carbon Cartrefi Cymru, Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio Llywodraeth Cymru

# 4. Trefniant y Cynulliad

Derbyniwyd cadarnhad o gyllid i Gynulliad Hinsawdd BG ym mis Tachwedd 2020.

Ffurfiwyd y Grŵp Llywio yn fuan wedi hynny er mwyn (i) penderfynu ar y cwestiwn cyfan a'r themáu craidd ar gyfer y Cynulliad (Tai, Trafnidiaeth, Natur a Mannau Gwyrdd) a (ii) sicrhau diduedd a thegwch y broses. Yn y cyfnod cynnar cynhwyswyd y thema fwyd hefyd, er ei bod wedi'i diddymu o'r restr themáu craidd oherwydd cyfyngiadau amser.

Roedd y Grŵp Llywio wedi cyfarfod wyth gwaith cyn dechrau'r Cynulliad, unwaith i gynnal adolygiad interim ac unwaith am adolygiad terfynol.

Mae rhestr o aelodau'r grŵp Llywio i'w gweld yn **Atodiad 2**.

Yn ogystal â'r partneriaid trefnu, aelodau'r Grŵp Llywio ac arbenigwyr, roedd y grwpiau canlynol wedi chwarae rhan allweddol ym mhroses y Cynulliad:

- **Sortition Foundation** - dewis ar hap
- **Mutual Gain** – cefnogaeth gyda datblygu agendáu ac hyrwyddo arweiniad
- **Involve** - cynghori, ac hyfforddi hyrwyddwyr ac ysgrifenyddion
- **Wales Co-operative Centre** - hyfforddiant Zoom
- Hyrwyddwyr, ysgrifenyddion a chefnogaeth dechnegol gwirfoddol a dynnwyd o'r partneriaiad trefnu a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council

Mutual Gain

SORTITION FOUNDATION

Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru

involve

# 5. Pwy yw aelodau'r Cynulliad, ac ym mha ffordd cawson nhw eu dewis?

Dewiswyd aelodau'r Cynulliad ar hap o mysg aelodau'r cyhoedd.

Mae dewis ar hap yn y ffordd yma yn golygu bod modd haenu'r aelodau drwy ddemograffeg lleol; yn yr achos hwn yn ôl rhywedd, oedran, ethnigrwydd, lleoliad daeryddol, statws preswylio, agwedd tuag at newid hinsadd a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Roedd dewis ar hap, ynghyd â samplo cynrychiadol, yn golygu bod aelodau'r Cynulliad yn gyd-ddinasyddion, a ddim yn cynrychioli unrhyw ddiddordebau penodol.

## Ionawr 2021

Anfonwyd gwahoddiadau dwyieithog at 10,000 o aelwydydd ar draws Blaenau Gwent (sef preswylwyr un o bob tri o'r cartrefi yn y bwrdeistref) yn rhoi gwybodaeth am broses y Cynulliad, a'r digolllediad a gynigir (sef £250 mewn arian parod neu dalebau).

### Chwefror 2021









O'r 264 o ymatebwyr a ddangosodd ddiddordeb, dewiswyd 50 cyfranogwr a oedd yn cyrychioli'r demograffeg a amlinellwyd uchod.







Roedd y Sortition Foundation wedi darparu, i'r trefnwyr, manylion a manylion cyswllt y rhai hynny a ddewiswyd, a'r gweddill o'r rhai a oedd wedi datgan diddordeb.

Pan ddaeth yr amser i wneud y dewis terfynol, roedd sawl person wedi datgan na allant bellach gyfranogi oherwydd ymrwymiadau teuluol a gwaith. Cynigwyd y llefydd hyn i eraill ar y restr aros a oedd yn cyfateb, lle bo hynny'n bosibl, i'r un meini prawf demograffeg.

Nifer terfynol y cyfranogwyr a fynychodd sesiwn gyntaf y Cynulliad oedd 44. Trwy gydol y sesiynau, roedd nifer y cyfranogwyr yn amrywio rhwng 43 a 44, ac roedd 43 yn bresennol ar gyfer y bleidlais olaf.

Dangosir demograffeg y cyfranogwyr yn y siartiau cylch canlynol.

| | Is-grwpiau Targed (Demograffig) BG | Dewiswyd (Cadarnhâd Terfynol) |
|---|---|---|
| Rhywedd |  |  |
| Oedran |  |  |
| Ardal |  |  |
| Deiliadaeth |  |  |

| | Is-grwpiau Targed (Demograffig) BG | Dewiswyd (Cadarnhâd Terfynol) |
|---|---|---|
| Agwedd tuag ar newid yn yr hinsawdd |  |  |
| Ethnigrwydd |  |  |
| Degradd MALIC |  |  |

**Data ynghylch y demograffeg targed, dewis a'r cyfranogwyr terfynol yma.**

Cynigiwyd ystod o gefnogaeth cyn ac yn ystod y Cynulliad er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch. Roedd hyn yn cynnwys rhoi cyfrifiaduron llechen i'r aelodau hynny o'r Cynulliad nad oeddent yn berchen ar galedwedd, sefydlu cysylltiad i'r rhyngrwyd drwy ddongl Wi-Fi, a thair awr o sesiynau galw heibio technegol i sicrhau bod yr aelodau yn medru cael mynediad llawn at Zoom.

# 6. Ymgysylltu â'r gymuned ehangach

Roedd hi'n bwysig bod y gymuned ehangach yn ymgysylltu â'r broses er mwyn (i) ysbrydoli trafodaethau'r Cynulliad, ac (ii) fel dull o sicrhau atebolrwydd o ran gweithredu'r argymhellion.

Aethpwyd ati i ymgysylltu gyda'r gymuned ehangach drwy ddefnyddio'r dulliau canlynol:

i. Rhoddwyd yr opsiwn i gofrestru ar wefan Cynulliad BG er mwyn derbyn diweddariadau drwy e-bost dwyieithog ynghylch gwaith y Cynulliad trwy gyfrwng Mailchimp. Hefyd, gwahoddwyd yr ymatebwyr a oedd wedi datgan diddordeb i'r gwahoddiad gofrestru i dderbyn y diweddariadau hyn. Roedd cyfanswm o 66 person wedi cofrestru i dderbyn diweddariadau.

ii. Roedd croeso i unrhyw un sy'n byw neu'n gweithio ym Mlaenau Gwent ymateb i'r cwestiwn a oedd yn cael ei ystyried gan y Cynulliad, a gwneud hynny trwy gyfrwng Pol.is

   Mae Pol.is yn dwlsyn arolygu rhyngweithiol sy'n gwahodd defnyddwyr i gytuno / anghytuno â datganiadau sy'n berthnasol i'r cwestiwn cyfan. Mae hefyd yn caniatáu i ddefnyddwyr ychwanegu eu sylwadau eu hun, sylwadau y gall eraill bleidleisio arnynt.


   Roedd yr arolwg rhyngweithiol wedi parhau am dair wythnos ac wedi dod i ben ar Fawrth 22, 2021 – yn ystod y cyfnod trafod, roedd 135 o bobl wedi pleidleisio, bwriwyd 5,594 pleidlais a chyflwynwyd 132 datganiad mewn ymateb i gwestiwn y Cynulliad. Cyflwynwyd canlyniadau'r arolwg i'r Cynulliad yn ystod y cyfnod trafod.

iii. Defnyddiwyd cyfrifon cyfryngau cymdeithasol y partneriaid trefnu a CBSBG i gyfathrebu ynghylch y Cynulliad Hinsawdd.



# 7. Proses y Cynulliad

Roedd tri chyfnod i broses y Cynulliad: dysgu, trafod a phleidleisio.




Roedd y cyfnod dysgu yn cynnwys:

- Cyflwyniad i resymu'n gall.
- Siaradwyr yn rhoi tystiolaeth a chynnig eu harbenigedd ynghylch themáu'r Cynulliad.
- Aelodau'r Cynulliad yn gofyn cwestiynau i'r siaradwyr ac yn cynnal trafodaethau gyda nhw.

Ategwyd at y dysgu gan '[dempledi siaradwyr]' (gwybodaeth ychwanegol am y siaradwr a'i bwnc), ac atebwyd, trwy ebost, unrhyw gwestiynau na chafodd eu hateb yn y sesiwn. Ar ddiwedd y cyfnod dysgu, roedd aelodau'r Cynulliad wedi pleidleisio dros y siaradwyr hynny a oedd, yn eu barn nhw, wedi gallu eu helpu orau i ateb y cwestiwn. Gwahoddwyd y siaradwyr hynny yn ôl i gynnal trafodaethau dwysach gyda grwpiau bychan o aelodau'r Cynulliad.

Yn ystod y cyfnod trafod:

- Roedd aelodau'r Cynulliad wedi pleidleisio dros pedair thema ychwanegol y gallant ddatblygu argymhellion yn eu cylch.
- Roedd yr aelodau wedi dewis y themáu yr oeddent am ddrafftio argymhellion yn eu cylch. Mewn grwpiau, drafftiwyd tri argymhelliad ar gyfer pob thema.
- Roedd pob grŵp wedi ymweld â'r saith thema arall er mwyn gofyn cwestiynau a chynnig eu sylwadau ar yr argymhellion drafft.
- Gan ddefnyddio'r cwestiynau a'r sylwadau hyn, roedd y grwpiau gwreiddiol wedi mireinio a gwella eu hargymhellion i'w gosod gerbron am bleidlais.

Yn y cyfnod pleidleisio, pleidleisiodd aelodau'r Cynulliad ar yr argymhellion terfynol. Roedd 43 o 44 aelod y Cynulliad wedi pleidleisio – roedd un aelod heb fynychu'r sesiwn olaf oherwydd afiechyd. Roedd 5 argymhelliad wedi derbyn dros 80% o'r pleidleisiau, a'u pasio yn swyddogol gan y Cynulliad.

Trwy gydol y broses defnyddiwyd hyrwyddwyr i ennyn sgyrsiau a oedd yn gynhwysol, yn barchus, yn amserol, yn onest ac adeiladol.

# 8. Y camau nesaf

Cyflwynwyd argymhellion y Cynulliad i brif weithredwyr y bedair gymdeithas dai a oedd wedi comisiynu'r gwaith ar ddydd Mawrth, Ebrill 13 2021.

Bydd aelodau'r Cynulliad yn cyflwyno'r argymhellion ac yn cymryd rhan yn y trafodaethau. Mae'r Cymdeithasau Tai wedi ymrwymo at ddarparu ymatebion ysgrifenedig i'r pum prif argymhelliad, a rhoi manylion o'r ffordd y byddant yn eu hymgorffori neu eu cefnogi.

Ar Ebrill 26, 2021, bydd grŵp dethol arall o wirfoddolwyr yn cyflwyno'r argymhellion i Grŵp Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd y BGC. Bydd Grŵp Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd y BGC yn darparu argymhellion ysgrifenedig i'r pum prif argymhelliad, gan amlinellu os, a phryd, y byddant yn cefnogi eu gweithredu. Bydd yr argymhellion ysgrifenedig hyn yn cael eu cyflwyno i'r BGC ehangach.

Hoffai nifer o'r aelodau aros mewn cyswllt â'i gilydd, ac mae grŵp wedi'i sefydlu tudalen Facebook i'w galluogi i barhau i gyfathrebu gyda'i gilydd.

Bydd y partneriaid trefnu yn tracio'r cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion, yn enwedig adeg yr etholiad yn 2022. Byddwn hefyd yn ceisio sicrhau adnoddau i'n galluogi i gynnal y momentwm ynghylch yr argymhellion, a pharhau i gynnwys aelodau'r Cynulliad yng nghynnydd y gweithredu.

Ein Blaenau Gwent ni yw hwn

Mae gan bawb ei rhan i'w chwarae

Gweithredwch, eich cymuned chi yw hwn

Helpwch ni wneud newid

Os taw chi sy'n gyfrifol, gwnewch eich swydd, siapwch hi a gwnewch ef!

Cynulliadau dinasyddion yw'r ffordd ymlaen

Negeseuon terfynol oddiwrth aelodau'r cynulliad

# 9. Dysgu

Mae'r meysydd dysgu canlynol yn grynodeb o'r rhai hynny a gafodd eu hadnabod gan bartneriaid y prosiect, a thrwy adborth oddiwrth eraill a oedd yn rhan ohono, gan gynnwys hyrwyddwyr, sylwedyddion ac aelodau.

## i Ariannu

Roedd yr arian am y Cynulliad Hinsawdd hwn wedi dod o gronfa ymgysylltu Rhaglen Dai Arloesol Llywodraeth Cymru. Cyfanswm yr arian a roddwyd i'r Cynulliad hwn oedd £50,000. O'n gwaith gyda chynulliadau eraill a'n trafodaethau gydag ymarferwyr eraill, yr ydym yn gwybod bod hon yn gyllideb isel iawn i geisio cyflenwi prosiect ymarferol o'r maint yma.

O ganlyniad i'r gyllideb gyfyngedig hon, roedd y partneriaid trefnu wedi gwneud consesiynau penodol, gan gynnwys:

- Taliadau is i aelodau'r Cynulliad – talwyd mwy na'r cyflog byw, sef mwy na £10.00 yr awr, i aelodau'r Cynulliad. Serch hynny, yr ydym yn ymwybodol bod cynulliadau eraill yn aml yn cynnig mwy o dâl, a byddai hyn, o bosib, wedi golygu bod mwy o bobl wedi cofrestru o'r 10,000 o lythyron a anfonwyd at breswylwyr Blaenau Gwent.
- Dibynnu ar wirfoddolwyr – roedd y Cynulliad wedi dibynnu ar wirfoddolwyr ar gyfer bron pob un o'r rolau, gan gynnwys hyrwyddwyr ac ysgrifenyddion, cefnogaeth dechnegol a siaradwyr. Yn ddelfrydol, bydden ni wedi cynnig tâl i bob un o'r rhain, er mwyn cydnabod yr amser a'r ymdrech a roddwyd i'r prosiect hwn.
- Cyfyngu ar daliadau i'r partneriaid trefnu – dim ond canran fach o amser y trefnwyr sydd wedi derbyn tâl yn ystod y prosiect chwe-mis o hyd hwn.

Mae hefyd yn werth pwysleisio bod yr anhawster o ran derbyn cyllid i gynnal Cynulliad Hinsawdd efallai yn cyfyngu ar y potensial o gynnal cynulliadau tebyg eraill, onibai eu bod yn cael eu hariannu gan lywodraeth leol neu genedlaethol.

## ii Amser vs y themáu a drafodwyd

Roedd rhaid i broses y Cynulliad gadw cydbwysedd rhwng y cyfyngiadau amser oherwydd diffyg cyllid, y maint o gyllid oedd ar gael, nifer y cyfranogwyr ac amser digonol ar gyfer dysgu a thrafod. Cyfanswm yr amser a ganiatwyd i'r Cynulliad oedd dau benwythnos (10 awr y penwythnos) a dwy sesiwn fin nos (3 awr).

Roedd hi'n gwbl glir o'r ymatebion gwerthuso bod y cyfranogwyr wedi teimlo, ar brydiau, bod materion wedi'u rhuthro yn ystod tri chyfnod (dysgu, trafod ac argymell) y Cynulliad. Yn benodol, yn ystod y sesiwn fin nos i drafod Trafnidiaeth, ar ddydd Mawrth, Mawrth 16, teimlwyd bod y 4 siaradwr wedi cyflwyno gormod o wybodaeth mewn cyfnod mor fyr. Ar y llaw arall, roedd y sesiwn a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod dysgu, pan glywyd ond tri siaradwr mewn prynhawn (Mawrth 7), gan roi cyfle i gyflwyno mwy o fanylder, wedi derbyn adborth positif.

**"Byddai wedi bod o gymorth pe byddai'r siardwyr wedi cael mwy o amser i ddweued eu dweud, a'n bod ni wedi derbyn mwy o wybodaeth am y siaradwyr ymlaen llaw. Efallai y byddai hyn wedi rhoi cyfle i ni baratoi cwestiynau a oedd yn berthasol i'r hyn a oedd ganddynt i'w ddweud."**

**"Roeddwn yn meddwl ei fod yn wych – yn sicr nid oedd digon o amser ond roedd pawb am helpu."**

Roedd yr hyrwyddwyr a'r ysgrifenyddion hefyd wedi cynnnig adborth i ddweud bod eu hamser gydag aelodau'r Cynulliad, ar adegau, yn gyfyngedig.

**"Roeddwn wedi trafod llawer mewn cyfnod byr o amser, ac er ein bod yn teimlo ein bod, ar adegau, yn rhuthro, dyma oedd y peth cywir i'w wneud. Roedd yr ystod o bynciau wedi ymgysylltu â mwy o bobl."**
(Dyfyniad gan hyrwyddwr)

Mae canllawiau Involve yn awgrymu caniatáu o leiaf 30 awr ar gyfer Cynulliad dinasyddion, ac mae'r trefnwyr yn cydnabod y byddai'n well pe byddai'r Cynulliad wedi cael mwy o amser i ymchwilio'r themáu mewn mwy o fanylder, a chael mwy o amser i drafod. Wrth edrych yn ôl byddai fformatau amgen, megis archwilio un brif thema (e.e. tai) a gadael amser ychwanegol i'r Cynulliad wahodd siaradwyr ar bynciau a awgrymwyd, wedi helpu gwneud y Cynulliad yn llai o ruthr yn yr amser a oedd ar gael.

Yn ogystal â'r amser a dreuliwyd arlein, roedd y Cynulliad hefyd wedi derbyn templedi siaradwyr ac ymatebion ysgrifenedig i'r cwestiynau hynny nad oedd y siaradwyr wedi medru ateb yn yr amser a oedd ar gael. yr ydym yn cydnabod na fyddai pob aelod yn meddu ar y capasiti i adolygu'r rhain rhwng y sesiynau, ac felly nid oedd treulio amser ar ddarllen ychwanegol yn orfodol.

## Capasiti gweinyddol a rolau eraill

Roedd angen llawer o waith gweinyddol ar y Cynulliad.

Roedd Cynnal Cymru, ERS Cymru ac United Welsh wedi arwain y gwaith gweinyddol, a oedd yn cynnwys:

- Cyfathrebu gydag ymgynghorwyr trydydd parti
- Trefnu hyrwyddwyr, sylwedyddion a siaradwyr
- Trefnu a darparu cefnogaeth dechnegol
- Cyfathrebu gyda llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru
- Cyfathrebu gyda chyfranogwyr y Cynulliad
- Ymgysylltu gyda'r prif hyrwyddwyr (Mutual Gain)
- Cydlynnu cyfarfodydd y Grŵp Llywio
- Cyfathrebu, gan gynnwys yr wefan a'r cyfryngau cymdeithasol
- Ymgysylltu â sefydliadau comisiynu

Darparwyd cefnogaeth golygu fideo a chefnogaeth dechnegol gan ymgynghorwyr a gyflenwyd gan Mutual Gain.

Un o'r prif bwyntiau dysgu yw bod angen tîm gweinyddol pwrpasol yn ogystal â rheolwyr prosiect i sicrhau gweinyddu amserol ac effeithlon.

## iv Cynnwys mudiadau lleol

Fel mudiadau cenedlaethol, roedd y partneriaid trefnu wedi cynnwys rhanddeiliaid lleol yn gynnar yn y broses.

Y pwysicaf o'r rhain oedd CBSBG a Grŵp Llywio Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd y BGC. Roedd y partneriaid trefnu wedi cwrdd â CBSBG a'r Grŵp Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd yn gynnar yn y broses er mwyn esbonio iddynt y cyd-destun, a'u gobaith y byddai proses ac argymhellion y Cynulliad yn cyfrannu at gynlluniau datgarboneiddio cyrff cyhoeddus ym Mlaenau Gwent, yn ogystal ag at gynlluniau datgarboneiddio y cymdeithasau tai.

Roedd CBSBG a Grŵp Llywio Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd y BGC yn bartneriaid cydweithredol ym mhroses y Cynulliad, gyda chynrychiolwyr yn aelodau o Grŵp Llywio y Cynulliad, ac yn gwirfoddoli fel ysgrifenyddion ac hyrwyddwyr.

Y siaradwyr a oedd o ddiddordeb mwyaf i'r Cynulliad oedd y rhai hynny a oedd yn meddu ar wybodaeth a/neu brofiad lleol; roedd yr aelodau yn gweld bod rhain yn berthnasol i'r materion sydd angen eu datrys ym Mlaenau Gwent.

## v Cyfle i ymgysylltu

Un o'r themáu cyson a godwyd gan yr aelodau oedd yr angen am gyfathrebu mwy effeithlon ac ymgysylltiad sefydliadau lleol ynghylch y newidiadau mawr sydd eu hangen o ran y broses ddatgarboneiddio. Er enghraifft, cynlluniau ar gyfer trafnidiaeth leol, seilwaith cerbydau trydan ac ôl-osod tai.

Roedd presenoldeb cynrychiolwyr o sefydliadau lleol yn y Cynulliad yn gyfle i gynnal proses ddwy-ffordd o wrando a dysgu, gyda'r bwriad o gynnal trafodaeth adeiladol a fyddai'n arwain at greu argymhellion.

Roedd y broses wedi helpu meithrin ymddiriedaeth roedd modd adeiladu arni ymhellach, gan barhau i ymgysylltu a chyfathrebu ynghylch gweithrediad a chynnydd yr argymhellion.

## vi Pwysigrwydd hyrwyddo

Oherwydd cyfyngiadau'r gyllideb, roeddwn wedi dibynnu ar wirfoddolwyr i hyrwyddo a chofnodi'r sesiynau. Roedd yr holl wirfoddolwyr wedi derbyn hyfforddiant penodol gan Involve, hyfforddiant a gynhaliwyd dros ddwy sesiwn hanner-diwrnod.

Mae'r adborth o'r gwerthusiad yn tanlinellu'r gwaith ardderchog a wnaethpwyd gan yr hyrwyddwyr a'r ysgrifenyddion, gyda 97% o'r ymatebwyr o'r farn eu bod wedi cael eu cynnwys yn nhrafodaethau'r grwpiau bychan, a 100% yn teimlo eu bod yn cael eu parchu gan yr hyrwyddwyr. Roedd aelodau'r Cynulliad hefyd wedi nodi bod rôl yr hyrwyddwyr, yn sicrhau bod yr aelodau yn cyd-drafod, wedi'u gwneud mewn ffordd barchus.

**"Roedd yr hyrwyddwyr yn grêt, ac wir wedi helpu pobl i rannu eu syniadau mewn ffordd gyfforddus"**

Serch hynny, nid oedd yr un ohonynt wedi cael y profiad o hyrwyddo cynulliadau dinasyddion, ac roedd angen cefnogaeth ychwanegol arnynt mewn sesiynau cyn, ac ar ôl, y sesiynau. Roedd un aelod o'r farn nad oedd yr hyrwyddwr wedi bod yn ddigon mentrus i sicrhau bod ei lais i'w glywed.

Roedd 24% o'r rhai a ymatebodd i'r gwerthusiad hefyd o'r farn bod yr hyrwyddwyr yn ceisio dylanwadu ar y grŵp, gan leisio eu syniadau eu hunain. Mae'n fwy na thebyg bod hyn oherwydd diffyg profiad, a'r angen am gefnogaeth ac hyfforddiant pellach, yn hytrach nag unrhyw ymgais fwriadol i ddylanwadu ar y trafodaethau.

Roedd adborth oddiwrth yr hyrwyddwyr hefyd yn amlygu'r angen am ragor o wybodaeth ynghylch fformat a disgwyliadau'r sesiynau.

**"Fel hyrwyddwr dw i'n credu y byddai'n ddefnyddiol derbyn amserlen y diwrnod ychydig ynghynt, yn hytrach nag yn hwyrach"**

**"Roedd llawer o ddryswch, gan nad oedd y nodiadau briffio yn matsio'r cynllun manwl – roedd hynny braidd yn ddryslyd"**

Yng nghyfnod argymell unrhyw Gynulliad dinasyddion mae gan hyrwyddwyr y rôl allweddol o sicrhau bod yr argymhellion yn glir. Byddai'n fuddiol cynnig cefnogaeth bellach i'r hyrwyddwyr i sicrhau bod y meini prawf argymell yn ddealladwy, a bod yr hyrwyddwyr yn teimlo'n hyderus wrth ddrafftio'r argymhellion.

**"Dw i'n credu bod rhai o'r argymhellion da iawn wedi methu oherwydd eu geiriad. Felly, mae angen llawer mwy o amser i fireinio, a mireinio'r cynigion terfynol."**

## vii Tryloywder y broses

Roedd y prif hyrwyddwyr wedi darparu trosolwg o fformat a phwrpas pob cyfnod o'r Cynulliad er mwyn rhoi sicrwydd i'r aelodau a sicrhau tryloywder y broses.

Yn y cyfnod pleidesio roedd dau fater wedi peri dryswch, gan danseilio, o bosib, tryloywder y broses i rai o'r aelodau. Roedd y ddau achos yn amlygu'r angen i sicrhau bod aelodau'r Cynulliad yn deall y broses bleidleisio yn iawn (e.e. trwy ddulliau Cwestiwn ac Ateb, ymarfer pleidleisio) cyn dechrau pleidleisio.

### i) Dryswch ynghylch a oedd pleidlais 'niwtral' yn cael ei chyfrif o blaid, neu yn erbyn, argymhelliad

Yn ystod y cyfnod pleidleisio, gofynnwyd i aelodau'r Cynulliad bleidleisio ar yr argymhellion trwy gyfrwng pleidlais Zoom, gan ddefnyddio 'Cytuno'n gryf', 'Cytuno', 'Niwtral', 'Anghytuno' ac 'Anghytuno'n Gryf'.

Yn fuan wedi'r ychydig bleidleisiau cyntaf, roedd aelod o'r Cynulliad wedi mynegi pryderon, gan ddweud nad oedd hi'n glir os oedd pleidlais 'niwtral' yn cyfrif at gefnogi, neu wrthwynebu'r, argymhelliad. Oherwydd hynny, ail-ddechreuwyd y broses bleidleisio.

### ii) Awgrym i ostwng y trothwy pleidleisio o 80%

O'r 24 argymhelliad a luniwyd gan y Cynulliad, derbyniodd 5 ohonynt pleidlais o 80%, er mwyn eu pasio fel argymhellion swyddogol (80% yw'r trothwy arferol ar gyfer yr argymhellion a wnelir gan gynulliadau dinasyddion). Tua thri chwarter o'r ffordd drwy'r broses bleidleisio, gwnaethpwyd yr awgrym, gan y prif hyrwyddwr, bod aelodau'r Cynulliad yn cynnal pleidlais i ofyn a ddylid gostwng y trothwy. Cynhaliwyd pleidlais ynghylch y cynnig, a dderbyniodd gefnogaeth 70% o'r pleidleiswyr, felly ni basiwyd.

Dylai'r broses bleidleisio wedi cael ei hesbonio'n gliriach cyn i'r aelodau ddechrau pleidleisio, yn enwedig y trothwy roedd ei angen ar argymhelliad cyn ei fod yn pasio, a bod cynsail yn bodoli i ostwng y trothwy pe byddai mwyafrif o 80% o'r aelodau yn pleidleisio i wneud hynny.

**"Roeddwn yn teimlo'n rhwystredig iawn ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio gan fy mod yn teimlo bod cymaint o amser wedi'i dreulio ar drafod yr argymhellion, ac yna nid oeddent wedi derbyn yr 80%"**

Mae'r gwerthusiad yn dangos yn glir rhwystredigaeth yr aelodau ynghylch y broses bleidleisio, a'r nifer o argymhellion a basiwyd gan y Cynulliad. O ran y pwynt diwethaf, byddai'n ddiddorol pe byddai cynulliadau'r dyfodol yn sefydlu modd o ddeall pam roedd yr aelodau wedi pleidleisio mewn ffordd benodol.

## viii Pwyntiau dysgu eraill

Isod gweler grynodeb o ychydig feysydd dysgu ychwanegol yr ydym am eu hamlygu:

- Gall proses y Cynulliad ysbrydoli gweithredu unigol yn ogystal ag argymhellion torfol.
- Mae'r broses ddysgu yn broses ddwy-ffordd rhwng y siaradwyr ac aelodau'r Cynulliad – trwy ofyn cwestiynau ac herio siaradwyr, gall y Cynulliad ddod â theoriau a pholisi yn ôl i realiti.
- Mae aelodau cynulliadau dinasyddion lleol yn dod â gwybodaeth leol, diddordebau a phrofiadau bywyd go-iawn i ystyriaeth o'r materion. Mae arbenigedd bobl lleol o werth mawr ac yn tanlinellu'r angen am gynulliadau lleol.
- Nid yw cynulliadau hinsawdd lleol yn disodli Cynulliad hinsawdd cenedlaethol – os yr ydym am daclo newid hinsawdd ar y raddfa sydd ei angen, mae angen cynulliadau lleol a chynulliadau cenedlaethol er mwyn ymgysylltu pobl Cymru yn y prosesau sy'n digwydd ar wahanol lefelau.
- Dylid defnyddio'r model yma o ddemocratiaeth ymarferol y tu hwnt i newid hinsawdd – mae nifer o faterion arwyddocaol yn wynebu Cymru. Dylid defnyddio cynulliadau dinasyddion fel rhan o'r pecyn cymorth o brosesau polisi, i fynd i'r afael â'r materion hyn.

**"Dw i'n poeni am ein dyfodol os byddwn yn parhau i fyw fel yr ydym yn gwneud ar hyn o bryd. Dw i eisoes wedi dechrau newid fy ffordd o fyw, ac wedi bod yn annog eraill i wneud hynny hefyd".**

**"Mae'n codi fy nghalon i weld croes-doriad o'm cyd-breswylwyr ym MG yn ymrwymo at chwarae eu rhan yn llawn, a mynd i'r afael â'r fath fater tyngedfennol".**

# 10. Ymatebion gwerthuso

Ar Fawrth 29, gwahoddwyd aelodau'r Cynulliad i gwblhau arolwg gwerthuso byr (yn dilyn yr argymhellion terfynol ar Fawrth 28).


Roedd 37 o aelodau'r Cynulliad wedi cwblhau'r gwerthusiad, a oedd y cynnwys cyfanswm o 12 cwestiwn, i fesur profiad emosiynol ac ymarferol yr aelodau o'r Cynulliad.

Defnyddiwyd yr ymatebion i'r gwerthusiad trwy gydol yr adroddiad hwn i amlygu'r meysydd dysgu.

Yn nhermau'r broses:

- Roedd dros 65% o'r cyfranogwyr o'r farn bod y Cynulliad wedi codi eu hyder o ran defnyddio technoleg
- Roedd 70% o'r cyfranogwyr o'r farn bod digon o amser wedi'i rhoi i ddysgu am faterion cyn gwneud argymhellion.
- Roedd 35% o'r cyfranogwyr o'r farn bod digon a amser wedi'i ganiatáu i gynnal trafodaethau
- Roedd 86% o'r cyfranogwyr o'r farn bod yr wybodaeth wedi'i chyflwyno mewn ffordd deg a chytbwys
- Roedd 95% o'r cyfranogwyr wedi datgan bod eu mwynhad cyffredinol o'r Cynulliad yn 4 neu 5, ar raddfa o 1 i 5 (lle roedd 1 yn golygu 'ddim o gwbl' a 5 yn golygu 'llawer iawn')

Mae canlyniadau yr arolwg gwerthuso llawn ar gael yma.



# 11. Allyriadau carbon cynulliad rhith

Trwy gydol y broses roeddwn yn ymwybodol o ôl-troed carbon y Cynulliad. Er enghraifft, roeddwn wedi dewis peidio argraffu a phostio unrhyw ddeunyddiau at y cyfranogwyr onibai bod rhesymau hygyrchedd dros wneud hynny.




Roeddwn wedi cyfrifo bod ôl-troed carbon y Cynulliad arlein tua 55.193 Kg $CO_2e$. Gallwch ddysgu mwy am ein ffordd o gyfrifo hyn, a'r ffordd y byddai'n cymharu â Chynulliad go-iawn yma.



# Atodiad 1
# Argymhellion

Mae'r tabl isod yn dangos yr argymhellion a ddrafftiwyd gan y Cynulliad.

| Thema | Argymhelliad | % cefnogaeth |
|---|---|---|
| Ôl-osod Tai | Hyfforddi crefftwyr lleol a chreu cymwysterau a gwella sgiliau busnesau lleol, gan gynnwys y colegau addysg bellach a phrifysgolion lleol. Diogelu hyn, a chynnig y cyrsiau cywir a fydd yn eu galluogi i wneud yr holl waith ym maes adeiladu gwyrdd. | 86 |
| | Rhaid i Flaenau Gwent greu platfform gwybodaeth hygyrch ac ymarferol, a hysbysir yn dda, sydd ar gael i bawb (gwefan wedi'i huwchraddio, app, llinellau gwybodaeth a 'siopau/ hybiau a ôl-osodwyd' un-stop lleol) i ddarparu cyngor a chynnig arddangosfeydd ynghylch popeth gwyrdd ledled yr ardal. | 70 |
| | Rhaid cynnal arolwg ôl-osod o bob tŷ sydd yn is na chategori 'C' y Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) erbyn 2023, gyda'r bwriad o weithredu ar y camau a argymhellir a dechrau ar y gwaith o fewn 12 mis pan fod yr opsiynau ariannu yn eu lle. | 67 |
| Adeiladu tai newydd | Sicrhau bod yr holl dai newydd yn cal eu hadeiladu gan ddefnyddio'r technolegau cynaliadwy diweddaraf (e. e.. Glanffrwd development fel templed), cyflogi adeiladwyr lleol a darparu amrywiaeth o fathau o dai sy'n addas ar gyfer pawb, o bobl digartref/ person sengl hyd at deuluoedd mawr. | 81 |
| | Blaenoriaethu safleoedd tir llwyd dros y llain las ar gyfer tai newydd, a sicrhau bod mannau gwyrdd yn cael eu creu yn y datblygiadau newydd. | 79 |
| | Darparu grantiau ynni gwyrdd i bawb sy'n prynu tŷ newydd a darparu cymhellion gwyrdd ar gyfer pob eiddo sy'n ynni effeithlon. Mae'r Telrau ac Amodau yn nodi bod rhaid byw yn yr eiddo am 5 mlynedd; fel arall, rhaid ad-dalu'r grant. | 56 |
| Mannau gwyrdd a natur | Sefydlu rhaglen cadw coetiroedd a choedwigo Blaenau Gwent, gan ddefnyddio'r goeden iawn yn y lle iawn am y rheswm cywir, cynyddu'r cyfleoedd am swyddi, bioamrywiaeth a chysylltu coetiroedd.<br>Sicrhau bod y sgiliau iawn ar gael fel ein bod yn gallu creu swyddi gwyrdd e.e. melinau llifio a thai ffrâm pren. | 86 |
| | Creu rolau i'r gymuned i gydgysylltu, trin y tir a chefnogi'r defnydd o fannau gwyrdd (rhandiroedd, coetiroedd a mannau gwyrdd trefol) er budd yr holl genedlaethau a chreu'r ymdeimlad o berchnogaeth cymunedol. Cefnogi cymunedau mewn gweithgareddau gan gynnwys tyfu bwyd, hamdden, bioamrywiaeth, presgripsiynu gwyrdd, cynllunio mannau gwyrdd ac estheteg (e.e. Blaenau Gwent in Bloom /Blaenau Gwent yn Blodeuo). | 77 |

| Thema | Argymhelliad | % cefnogaeth |
|---|---|---|
| Mannau gwyrdd a natur | Datblygu rhaglen ynni gwyrdd a berchnogir gan y gymuned/ a berchnogir yn rhannol e.e. ffermydd solar, ferrmydd gwynt neu drydan dŵr. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan fondiau gwyrdd. Sicrhau bod y bondiau yn hygyrch ac yn cynnig budd. | 74 |
| Trafnidiaeth | Sefydlu system drafnidiaeth fforddiadwy ac integredig ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd ym Mlaenau Gwent –<br>System o docynnau sengl sy'n cysylltu'r cynlluniau bws, rheilffordd a beicio - cynwysoldeb o ran prynu tocynnau (papur neu ddigidol).<br>Bod y cyfleusterau yn hygyrch drwy gydol yr amser ac wedi'u goleuo, eu gwarchod gan Deledu Cylch Cyfyng a'u cynnal a chadw mewn cyflwr da. | 91 |
| | Sefydlu a gwella seilwaith diogel ar gyfer cerddwyr a beicwyr, at ddibenion hamdden neu waith, sy'n hawdd ei gynnal a chadw ac yn darparu mynediad at y rhwydwaith drafnidiaeth gyhoeddus. Bydd yn cynnwys goleuo a Theledu Cylch Cyfyng a lle i storio beiciau. | 88 |
| | Cymell cynllun rhannu ceir trydan a leolir yn y gymuned (24/7) lle y gallwch naill ai logi car eich hun neu, gan ystyried diogelwch, rhannu cerbyd (system Uber). | 33 |
| Addysg | Gosod y nod, a chefnogi ysgolion i ddefnyddio cynnyrch cynaliadwy o Gymru/ Prydain a chynyddu'r defnydd o'r cynnyrch hwnnw dros amser, a chynnwys mwy o ddewis llysieuol. | 74 |
| | Gwneud newid hinsawdd a'i effeithiau yn orfodol, yn rhyngweithiol (e. e. cystadleuthau, gwobrau) ac yn berthnasol i'r ardal leol yng nghwricwlwm yr ysgol.  Dylai'r Cyngor helpu ysgolion gyda phrosiectau sy'n berthnasol i oedran ac ymgysylltiad ymarferol ieuenctid yn y gymuned ehangach. | 62 |
| | Cynnig cyrsiau byrion ar y thema newid hinsawdd i unigolion, busnesau lleol, masnachwyr a phenderfynwyr drwy'r sefydliadau addysgol neu gan blant mewn ysgolion. | 57 |
| Gwastraff ac Ailgylchu | Sefydlu hybiau atgyweirio er mwyn ail-ddefnyddio / addasu at ddibenion gwahanol / uwchgylchu eitemau. | 79 |
| | Ail-osod sgipiau cymunedol – er mwyn ymateb yn gadarn i dipio anghyfreithlon a sbwriel – gosod mwy o finiau sbwriel a'u gwacáu yn amlach. Gosod a monitro mwy o Deledu Cylch Cyfyng / mesurau manylach yn y mannau hynny y mae tipio anghyfreithlon yn digwydd yn gyson. Ailgyfeirio cost tipio anghyfreithlon a Theledu Cylch Cyfyng at sgipiau cymunedol ac, mewn amser, bydd y cynllun yn talu am ei hun. | 65 |

| Thema | Argymhelliad | % cefnogaeth |
|---|---|---|
| Gwastraff ac Ailgylchu | Sefydlu gwefan gwybodaeth fanylach, cylchlythyr a hysbysfyrddau cymunedol er mwyn hyrwyddo tryloywder a rhannu gwybodaeth ynghylch ailgylchu a sut mae cael mynediad at y gwasanaethau hyn – byddai hyn yn codi ymwybyddiaeth er mwyn ymgynghori ynghylch y materion yma yn y dyfodol. | 63 |
| Cyfathrebu | Datblygu Strategaeth Gyfathrebu Newid Hinsawdd er mwyn hyrwyddo gweithredu ar newid hinsawdd ar bob lefel yn y gymuned erbyn 2022, i'w adolygu yn flynyddol. | 67 |
| | Sefydlu Rhwydwaith Gyfathrebu Newid Hinsawdd i arolygu'r Strategaeth wrth iddi esblygu (i fod yn draws sector, gan gynnwys dinasyddion a chynrychiolwyr ieuenctid) i rannu'r arfer orau a gwybodaeth. | 63 |
| | Cyflogi Swyddog(ion) Cyfathrebu pwrpasol i arwain y Strategaeth Gyfathrebu Newid Hinsawdd. | 53 |
| Tlodi | Darparu'r seilwaith, hyfforddiant a chyllid i fusnesau (newydd, sy'n tyfu a sydd eisoes yn bodoli) yn yr economi leol – e.e. prentisiaethau, cyflogaeth a chyfleoedd gwirfoddoli. | 72 |
| | Darparu grantiau canolog er mwyn gwella perfformiad ynni yr holl dai a lleihau tlodi tanwydd a defnydd ynni erbyn 2027 | 70 |
| | Cynnig cyngor, gofod a chyllid fel bod cymunedau yn gallu creu eu hybiau lleol eu hunain, gyda rhwydwaith o Swyddogion Allgymorth. | 58 |

**Noder, o ganlyniad i adolygiad o'r data crai, bod canran cefnogaeth rhai o'r argymhellion wedi'i ddiweddaru**

# Atodiad 2
# Aelodau'r Grŵp Llywio

- Ben Saltmarsh (NEA Cymru)
- Bethan Proctor (Cartrefi Cymdeithasol Cymru)
- Bev Jones (Cartrefi Melin)
- Chris Blake (Cwmni Buddiannau Cymunedol The Green Valleys)
- Daniel Wheelock (CBS Blaenau Gwent)
- Darcey Howell (Fforwm Ieuenctid Blaenau Gwent)
- Jess Blair (ERS Cymru)
- Joe Frampton (Tai United Welsh)
- Judy Phipps  (Fforwm y rhai dros 50 oed, Blaenau Gwent)
- Professor Julie Froud (Prifysgol Manceinion)
- Justine Scorrer (Linc Cymru)
- Lorraine Whitmarsh (Cyfarwyddydd, Centre for Climate Change and Social Transformation)
- Luke Penny (Cynnal Cymru)
- Mara Moruz (Fforwm Ieuenctid Blaenau Gwent)
- Matthew Matthias (ERS Cymru)
- Nia Thomas (ERS Cymru)
- Owain Israel (Linc Cymru)
- Richard Thomas (Tai United Welsh)
- Sarah Freeman (Cyfoeth Naturiol Cymru)
- Sarah Hopkins (Cynnal Cymru)
- Steve Cranston (Tai United Welsh)
- Tim Daley (Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol Cymru)
- Trisha Hoddinot (Cartrefi Melin)

Cynulliad Hinsawdd
Climate Assembly

**Cynnal Cymru - Sustain Wales**
Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff Bay
CF10 5FL

02920 192021